

Date · Dyddiad 15 Gorffennaf 2021  
Your ref · Eich cyfeimod  
My ref · Fy nghyfeirnod SRD/KR  
Telephone · Ffôn 01437 775861  
Email · Ebost Steven.richards-downes@pembrokeshire.gov.uk  
[www.pembrokeshire.gov.uk](http://www.pembrokeshire.gov.uk) / [www.sir-benfro.gov.uk](http://www.sir-benfro.gov.uk)



## Pembrokeshire County Council Cyngor Sir Penfro

RICHARD BROWN B.Sc.(Hons) M.Sc. MCIWM  
*Interim Chief Executive / Prif Weithredwr Dros Dro*

STEVEN RICHARDS-DOWNES  
*Director of Education  
Cyfarwyddwr Addysg*

Pembrokeshire County Council,  
County Hall, HAVERFORDWEST,  
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,  
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,  
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for  
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Steven Richards-Downes

### Annwyl Deuluoedd a Phlant

Rwyf am achub y cyfle hwn i ysgrifennu atoch ar ddiwedd flwyddyn academaidd sydd wedi bod yn anodd i bawb sy'n gysylltiedig ag ysgolion, ac addysg yn gyffredinol. Hoffwn ddiolch i'r holl ddysgwyr yn ein hysgolion am y gwydnwch y maent wedi'i ddangos eleni. Mae teuluoedd wedi gwneud llawer iawn i gefnogi dysgwyr ac ysgolion trwy'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu yn sgil y pandemig COVID-19 parhaus.

Rydym yn gweld rhywfaint o obaith o gyfeiriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â gweithrediadau ysgolion yn y dyfodol ac o ran ei disgwyladau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg lythyr sy'n amlinellu'i ddisgwyladau ar gyfer ysgolion ym mis Medi.

Mae'r darn mwyaf perthnasol o'r llythyr isod:

"Yn y cyfamser, rwyf am fod mor glir ag y gallaf ar hyn o bryd ar y sail y dylech gynllunio ar gyfer mis Medi ar hyn o bryd i gyfyngu ar yr aflonyddwch i chi a'ch dysgwyr:

- Ni fyddwn yn argymhell y defnydd arferol o orchuddion wyneb mewn ystafelloedd dosbarth mwyach.
- Nid argymhellir trefnu grwpiau cyswllt/swigod mwyach. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio ein system Profi Orlhain Diogelu i nodi unigolion sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â dysgwyr sydd wedi cael canlyniad positif, ac mae'n bosibl y bydd y fîm Profi Orlhain Diogelu yn cysylltu â'ch ysgol i ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ar gael gennych at yr wybodaeth y mae'r fîm wedi'i chasglu. Ein disgwylad o'ch ysgol yw eich bod yn dilyn y cyngor penodol yr ydych yn ei gael gan y fîm Profi Orlhain Diogelu ynglŷn ag a oes angen i unigolion hunanynysu.
- Bydd amseroedd sesiynau arferol yn ailddechrau.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gael copi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

- Dylid annog plant uwchradd a'r gweithlu addysg i gael prawf cyn dychwelyd i'r ysgol."

**Er mwyn parhau i ddiogelu'n dysgwyr a'n staff, rydym yn cynllunio ar sail yr uchod, ond gan ystyried y sefyllfa bresennol, mae hwn yn agored i newid yn ôl yr angen.**

Yn ogystal, bydd yn rhaid i ysgolion barhau i ystyried y mesurau lefel rhybudd cyffredinol sydd mewn grym ar y pryd. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gefnogi ysgolion a gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gefnogi ysgolion.

Bydd angen i ysgolion hefyd gydymffurfio â'r mesurau a amlinellir yn y canllaw gweithredol diwygiedig, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r canllaw hwn yn sôn am gynnal nifer o'r mesurau lliniaru, ynghyd ag asesiad risg cadarn y bydd angen i ysgolion barhau i'w gael oherwydd bod COVID-19 yn dal i fod yn glefyd hysbysadwy.

Bydd taliadau prydau ysgol am ddim yn parhau i ddysgwyr drwy gydol cyfnod gwyliau'r ysgol, gan ddilyn y drefn arferol ar gyfer holl wyliau'r ysgol eleni.

Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion a theuluoedd er budd gorau pawb, ac rwy'n sicr y byddwch am sicrhau bod dysgwyr a staff yn cadw'n ddiogel.

Gofynnwn i chi barchu'r mesurau y bydd ysgolion yn eu gweithredu. Bydd y rhain yn parhau i gynnwys cadw pellter diogel lle bo'n bosibl, Bydd gwisgo masgiau ar drafnidiaeth yn parhau yng Nghymru ac, yn ogystal, gall unrhyw un sy'n dymuno gwisgo masg barhau i wneud hynny.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno seibiant da ichi dros yr haf, ac edrychwn ymlaen at ddychwelyd ym mis Medi a pharhau i gefnogi ein proses adfer.

Yn gywir



**Steven Richards-Downes**  
**Cyfarwyddwr Addysg**

